## ATODLEN 14

## DARPARIAETHAU TROSIANNOL A DARPARIAETHAU ARBED

### **RHAN 1**

### DARPARIAETHAU CYFFREDINOL

*Cyfeiriadau statudol a chyfeiriadau eraill at y Ddeddf hon*

1 (1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i unrhyw gyfeiriad (penodol neu ymhlyg) yn y Ddeddf hon neu mewn unrhyw ddeddfiad arall, neu mewn unrhyw offeryn arall neu unrhyw ddogfen arall—

(a) at ddarpariaeth yn y Ddeddf hon, neu

(b) at unrhyw beth a wneir neu sydd i'w wneud o dan ddarpariaeth yn y Ddeddf hon neu at ddibenion darpariaeth o'r fath.

(2) Mewn perthynas ag unrhyw adeg pan oedd darpariaeth gyfatebol mewn deddfiad a ddiddymwyd (neu mewn unrhyw ddeddfiad cynharach) yn cael effaith, mae'r cyfeiriad i'w ddarllen fel pe bai'n cynnwys cyfeiriad—

(a) at y ddarpariaeth gyfatebol fel yr oedd yn cael effaith ar yr adeg honno, neu

(b) at bethau a wnaed neu a oedd i'w gwneud o dan y ddarpariaeth honno neu at ddibenion y ddarpariaeth honno fel yr oedd yn cael effaith ar yr adeg honno.

*Dogfennau sy'n cyfeirio at ddeddfiadau a ddiddymwyd*

2 (1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i unrhyw gyfeiriad at ddeddfiad a ddiddymwyd sydd wedi ei gynnwys mewn dogfen a wneir, a gyflwynir neu a ddyroddir ar ôl i'r deddfiad hwnnw gael ei ddiddymu.

(2) Oni bai bod y cyd-destun yn mynnu fel arall, mae'r cyfeiriad i'w ddarllen (yn ôl y cyd-destun) fel pe bai'n cyfeirio neu'n cynnwys cyfeiriad at y ddarpariaeth gyfatebol yn y Ddeddf hon.

*Perthynas â Deddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019*

3 Mae'r Atodlen hon yn gymwys yn ychwanegol at adrannau 34 a 35 o Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 (dccc 4) (arbedion cyffredinol ac effaith ailddeddfu) ac nid yw'n cyfyngu ar weithrediad yr adrannau hynny mewn cysylltiad â diddymu, dirymu neu ailddeddfu unrhyw ddeddfiad gan y Ddeddf hon.

*Dehongli*

4 Yn y Rhan hon o'r Atodlen hon—

(a) mae cyfeiriadau at ddarpariaeth yn y Ddeddf hon yn cynnwys darpariaeth sydd wedi ei mewnosod mewn unrhyw ddeddfiad arall gan y Ddeddf hon;

(b) ystyr "deddfiad a ddiddymwyd" yw unrhyw ddeddfiad sydd wedi ei ddiddymu gan y Ddeddf hon;

(c) mae cyfeiriadau at ddiddymu deddfiad yn cynnwys eithrio ei gymhwysiad neu ei effaith neu gyfyngu ar ei gymhwysiad neu ei effaith (pa un ai o ran Cymru neu fel arall).